S4C

09.04.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Article

# S4C fel na welsoch chi 'rioed o'r blaen!

Mae 9 o'r gloch ar nos Sadwrn am fod yn wahanol iawn ar S4C dros yr wythnosau nesa' wrth i efell drwg y sianel weld golau dydd.

Tynnu coes ar bawb a phopeth (gan gynnwys S4C!) fydd bois **Hyd y Pwrs** wrth i'r criw ddychwelyd am gyfres newydd sbon nos Sadwrn, 18 Ebrill.

Bydd y gyfres gomedi newydd yn dychan sawl un o gyfresi poblogaidd y sianel. Mwynhewch berfformiadau hynod yn 'Gorau Prys Meirion' a 'Dechrau Canu', 'steddwch nôl a mwynhewch glonc gyda chriw 'Henoma', dewch i ganfod trysorau cudd yn 'Trash y Teulu', neu ymgollwch yng nghelfyddyd '04AL'. Mae **Hyd y Pwrs** am roi sbin dra wahanol ar yr hen ffefrynnau!

Y pump sydd wrth wraidd yr holl sgetsys yw Dion Davies, Rhodri Evan, Aeron Pugh, Rolant Prys, heb anghofio Iwan John.

"Ni'm yn cymryd dim byd yn rhy siriys," meddai Iwan John, sydd wedi diddanu'r Cymry fel un o hoelion wyth comedi Gymraeg ers degawdau. "Hwyl yw'r holl beth! Mae'n rhaid chwerthin, yn enwedig yn y cyfnod ni'n byw ynddi. Ma fe'n *release* n'dyw e. Yn union fel pe taech chi heb grio ers ache – ma'r tensiwn 'na sy'n bildio mewn tu mewn i ti'n anferthol. Ma' cal laff bob dydd yn neud uffar o wahaniaeth!"

Mae gan Iwan gatalog o gymeriadau dan ei het - efallai eich bod chi'n ei adnabod fel Eddie Butler o'r gyfres **Hotel Eddie**, neu Cheryl o driawd *glamorous* **Beryl, Cheryl a Meryl**, neu DJ Sal ar **Ysbyty Hospital**. Byddai rhai yn ei gofio hefyd ar raglen sgetsys **Mawr** - sydd nawr ar gael i'w wylio fel bocs set ar S4C Clic.

Ond yn ddiweddar, gwelwyd ochr wahanol i Iwan yn rhan o'r gyfres **Drych** ar S4C, wrth i Iwan rannu ei daith o gael aren newydd yn y rhaglenni **Aros am Aren**, a **Dau Ffrind, Un Aren**.

"Yn ystod cyfnod ffilmio **Hyd y Pwrs**, o'n i ar ddialysis ac yn aros am drawsblaniad. Oedd cael mynd allan a bod yn wirion yn fy nghario fi drwyddo fe. Rodd hi'n anodd rhai dyddie i godi fy hun lan a dweud 'reit, rhaid fi drio bod yn ddoniol nawr' - ond odd e'n therapi yn ei hun.

"Dyna'r ddeuoliaeth ti angen mewn bywyd. Ti angen yr ochr mwy *sensible*, ond ti hefyd angen yr ochr mwy ffwrdd â hi!"

"Ond nai orffen gan ddweud un peth..." ychwanegodd Iwan, "*peidiwch* gwylio **Hyd y Pwrs** nos Sadwrn am 9. Peidiwch!"

**Hyd y Pwrs**
**Nos Sadwrn, 18 Ebrill 9.00 S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar gael ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Wes Glei Cyf. ar gyfer S4C**

S4C

09.04.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg Press Article**

# S4C like you've never seen it before!

Saturday nights are going to be very different on S4C over the coming weeks as the channel's 'evil twin' will come alive.

The **Hyd y Pwrs** lads will return for a brand-new series on Saturday, 18 April, teasing everyone and everything (including S4C!)

The new comedy series will satirise many of the channel's popular programmes. Enjoy spectacular performances in 'Gorau Prys Meirion' and 'Dechrau Canu', sit back and enjoy the company of 'Henoma', discover hidden treasures in 'Trash y Teulu', or indulge in the modern art of '04AL'. **Hyd y Pwrs** will put a very different spin on S4C's old favourites!

The masterminds behind the sketches are Dion Davies, Rhodri Evan, Aeron Pugh, Rolant Prys, not forgetting Iwan John.

"We don't take anything too seriously," said Iwan John, who has entertained Wales as one of the cornerstones of Welsh comedy for decades. "It's all just for fun! You must laugh, especially in the time we live in. It's a release. It's just as if you haven't cried in ages, a massive tension builds up inside you. Having a little laugh every day makes a world of difference!"

Iwan has a range of characters to his name – you may know him as Eddie Butler from **Hotel Eddie**, or Cheryl from the glamorous trio, **Beryl, Cheryl a Meryl**, or DJ Sal in **Ysbyty Hospital**. Some may also remember him as part of the sketch show **Mawr** – which is now available to watch as a box set on S4C Clic.

But recently, a different side of Iwan was shown as part of the **Drych** series on S4C, as he shared his journey of getting a new kidney in the programmes **Aros am Aren** and **Dau Ffrind, Un Aren**.

"During the filming period of **Hyd y Pwrs**, I was on dialysis and waiting for a transplant. But going out and doing something completely silly and different carried me through it. Some days it was difficult to pick myself up and say 'right, I must try to be funny now'. But it was therapy in itself.

"That's the contrast you need in life. You need a sensible side, but you also need the more laid-back, relaxed side!"

"I'll leave you by saying one thing..." added Iwan, "don't watch **Hyd y Pwrs** on Saturday night at 9!"

**Hyd y Pwrs**
**Saturday, 18 April 9.00 S4C**
**English Subtitles**
**Available on S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Wes Glei Cyf. production for S4C**